ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	12 Hydref 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2022/3

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu am weddill blwyddyn 2022 hyd at 2023.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedai yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau na ragwelwyd, yn anffodus bu'n rhaid diwygio ychydig ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan Aelodau mewn cyfarfod blaenorol ac mae materion wedi'u haildrefnu i'w hystyried.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod Swyddogion wedi cyflwyno rhaglen waith wedi'i diweddaru yn y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin 2022 a gafodd ei chymeradwyo. Trefnwyd bod swyddogion yn cyflwyno nifer o faterion wedi'u diweddaru i chi eu hystyried yn y cyfarfod hwn, ond oherwydd nifer o ffactorau, bydd rhai materion yn cael eu cyflwyno i chi mewn cyfarfod yn y dyfodol. Gweler Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig yn Atodiad A.

4. ARGYMHELLIAD

4.1

Argymhellir fod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac:

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer gweddill blwyddyn 2022 hyd at 2023.